

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol
2003-2004



Tachwedd 2004

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael o:

TAAAC,

Uned 32,

Parc Menter Ddole Road,

Llandrindod, Powys, LD1 6PF.

Ffôn: 01597 823800

Ffacs: 01597 829801

e-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

ISDN 0 7504 3527 5

G/231/04-05

Tachwedd 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

At: Ms Jane Davidson AC,
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,

1 Tachwedd 2004

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf fel Llywydd
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar gyfer y flwyddyn 1 Medi
2003 i 31 Awst 2004.

Rhiannon Ellis Walker
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF
Linell Gymorth | Helpline: 01597 829800
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Llywydd	1
Cefndir a Strwythur	1
Datblygiadau	2
Ystadegau	2
Y Dyfodol	3
Nifer yr Apeliadau AAA	4
Rhaniad bechgyn : merched apeliadau AAA	5
Cyflymder Cwblhau	5
Canlyniadau ôl-gofrestru	6
Nifer Apeliadau fesul Awdurdod Addysg Lleol	7
Mathau o Apêl	8
Natur yr AAA	9
Canlyniad yr Apeliadau – cyffredinol	10
Canlyniad yr Apeliadau – yn ôl ysgol	10
Canlyniad yr Apeliadau – yn ôl natur AAA	11
Monitro Ethnig	11
Apeliadau i'r Uchel Lys	12
Hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd	12
Cwynion	12
Gwariant	13
Aelodaeth y Tribiwnlys	14

Rhagair y Llywydd: TAAAC: 12 mis yn ddiweddarach

Hwn yw fy Adroddiad Blynyddol cyntaf fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am flwyddyn weithredol lawn gyntaf y Tribiwnlys, o Fedi 2003 hyd ddiwedd Awst 2004. Dylid nodi, fodd bynnag, er bod yr adroddiad yn cyfeirio at flwyddyn lawn o apeliadau, mae'r ffigurau ar gyfer *gwrandawiadau* a *phenderfyniadau* yn cyfeirio at gyfnod o naw mis yn unig, yn dilyn gwrandawriad yr apêl gyntaf ar 18 Tachwedd 2003.

Cefndir a Strwythur TAAAC

Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol, Jane Davidson AC a soniodd gyntaf am y bwriad o ddatblygu tribiwnlys anghenion addysgol arbennig datganoledig i Gymru a hynny yn ei dogfen ymbaratoi, "Y Wlad sy'n Dysgu". O 1994 hyd at fis Medi 2003 Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Lloegr a Chymru (a ad-drefnwyd yn ddiweddarach dan yr enw SENDIST) a oedd yn delio ag apeliadau yn erbyn AALLau. Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi'r Cod Ymarfer AAA cyntaf i Gymru yn 2002, sefydlwyd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru ei hun.

Sefydlwyd TAAAC ar 1 Ebrill 2003, yn dilyn newidiadau i Ddeddf Addysg 1996 yn sgîl Deddf Addysg 2002. Mae gennyf i a thri chadeirydd y Tribiwnlys gymwysterau yn y gyfraith ac fe'n penodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Cytunodd Jane Davidson â phenodiad wyth o'n haelodau lleyg, ac mae ganddynt oll arbenigedd ym meysydd AAA ac / neu anabledd. Deallaf fod dros gant chwe deg o ymgeiswyr wedi gwneud cais am yr wyth swydd a bod y gystadleuaeth o safon eithriadol o uchel – sefyllfa sy'n cael ei hadlewyrchu yn ansawdd ein haelodaeth.

Yn Llandrindod y mae swyddfa weinyddol y Tribiwnlys lle ceir tîm o bedwar o staff. Ceir canolfan wrandawiadau ar gyfer gwaith y Tribiwnlys yn y pencadlys, ond fe wrandewir ar apeliadau mewn lleoliadau ar hyd ac ar led Cymru.

Gall rhieni sy'n anghytuno â phenderfyniadau Awdurdodau Addysg Lleol Cymru apelio ynghylch AAA; gellir gwneud hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabledd addysgol yn erbyn cyrff cyfrifol yng Nghymru (mae ein llyfryn ar sut i hawlio ynghylch anabledd, a sut i apelio ynghylch AAA yn cynnig rhagor o wybodaeth am y broses).

Gall y Tribiwnlys wrando ar apeliadau yn yr iaith Gymraeg a dewis panel tribiwnlys sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod rhai pobl yn siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd, ond yn defnyddio'r Saesneg ar gyfer llawer o'u gwaith ysgrifenedig a'u gwaith darllen. O ganlyniad, rydym yn awr yn rhoi'r

cynnig i rieni wneud eu cais yn Saesneg, ond rhoi eu tystiolaeth yn Gymraeg. Rydym eisoes wedi cynnal gwrandawriad dwyieithog lle y rhoddwyd tystiolaeth yn y ddwy iaith.

Datblygiadau

Rydym wedi gosod cryn bwyslais o'r dechrau ar greu awyrgylch anffurfiol ar gyfer gwrandawriadau. Rwy'n sylweddoli y gall defnyddwyr y Tribiwnlys deimlo'n bryderus iawn ac felly y mae o fudd i bawb os yw'r gwrandawriadau yn digwydd mewn awyrgylch sydd mor anffurfiol ac mor hamddenol ag sy'n bosibl. Gan hynny, rydym wedi sicrhau bod ystafelloedd ymgynghori ar wahân ar gael ar gyfer cynrychiolwyr a thystion y rhieni a'r awdurdod addysg lleol. Rydym hefyd wedi trefnu bod lluniaeth ar gael yn rhad ac am ddim.

Rydym wedi bod yn eiddgar i sgwrsio'n agored gyda'n defnyddwyr. Er mwyn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth a safbwyntiau, mae TAAAC wedi sefydlu tri grŵp rhanbarthol o ddefnyddwyr sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn yn agored i holl ddefnyddwyr y Tribiwnlys ac rydym yn ymwybodol bod rhaid iddynt fod yn gynrychioladol; rydym wedi annog rhieni, y sector gwirfoddol, Y Comisiwn Hawliau Anabledd ac, wrth gwrs, yr AALLau i fynychu'r cyfarfodydd. Rydym yn awr yn edrych ar ffyrdd o annog cynrychiolaeth uniongyrchol gan y rhieni mewn cyfarfodydd o'r fath. Mae'r cyfarfodydd wedi cael eu croesawu a gobeithiwn y byddant yn arwain at well dealltwriaeth o waith y Tribiwnlys ac yn gyfle i'n defnyddwyr leisio eu safbwyntiau a'u pryderon.

Ystadegau

Yn fy adroddiad, dadansoddir nifer, mathau a chanlyniadau'r apeliadau a'r hawliadau dros y flwyddyn ddiwethaf. Sylwch os gwelwch yn dda ein bod, ar gyfer y flwyddyn hon yn unig, a lle y gellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol, wedi cyflwyno ein ffigurau o'u cymharu â ffigurau perthnasol SENDIST.

Derbyniwyd yr apeliadau cyntaf yn Llandrindod ym mis Medi 2003. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd oddeutu 128 o achosion ac o'r rhain cofrestrwyd 117. Yn ystod yr un flwyddyn, dim ond dau hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd a dderbyniwyd ac a gofrestrwyd. Er bod hyn yn gwbl gyson â ffigurau Cymru o dan awdurdodaeth SENDIST, mae'n peri i rywun ofyn a yw'r wybodaeth briodol ar gael i bawb. Nodaf ac ategaf sylwadau cyn-Lywydd SENDIST, Trevor Aldridge, yn ei adroddiad diwethaf sef " . . . y byddai'n ddefnyddiol gofyn i ysgolion ddweud wrth rieni am bosibiliadau'r drefn hawlio bob blwyddyn yn eu hadroddiadau blynyddol."

Y Dyfodol

Bu cryn drafod yn ddiweddar ynghylch Papur Gwyn Llywodraeth y DU, Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus: Cwynion, Gwneud lawn a Thribiwnlysoedd. Mae'r Papur Gwyn yn dilyn nifer o'r argymhellion a gafodd eu cynnwys yn adroddiad Syr Andrew Leggat, "Tribiwnlysoedd i Ddefnyddwyr – Un System Un Gwasanaeth ." Mae'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth unedig i dribiwnlysoedd yn dirwyn i ben; deallaf fod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried yr ymateb yng Nghymru. Mae Tribiwnlys AAA Cymru yn bwriadu cymryd rhan yn y trafodaethau hynny dros y misoedd i ddod.

Mae hi wedi bod yn ddeuddeg mis hynod o gyffrous a gwerthfawr. Wedi i ni brofi a gwella ein systemau, yn ystod y cyfnod hwn, ein nod yn awr fydd gwella'r gwasanaeth i'n defnyddwyr.

Ar ran TAAAC, rhaid i mi ddiolch i Trevor Aldridge CF (Llywydd SENDIST hyd at Hydref 2003), Rosemary, y Fonesig Hughes (Llywydd presennol SENDIST) a'i Hysgrifenyddiaeth am eu cymorth, cyngor a chefnogaeth hael drwy gydol y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at barhau'r drafodaeth gyda'n cymheiriaid yn yr awdurdodaethau eraill.

Rwy'n sicr y bydd y flwyddyn nesaf yn llawn cymaint o her, ond gyda chefnogaeth cadeiryddion, aelodau lleyg ac ysgrifenyddiaeth ymroddedig a gwych TAAAC, rwy'n hyderus y bydd y Tribiwnlys yn ymateb i'r her honno mewn modd proffesiynol a llwyddiannus.


Nifer yr apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn 2003/2004, derbyniasom **128** o apeliadau AAA ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed gan AALLau yng Nghymru. O'r rhain, cofrestrwyd **117** o apeliadau AAA (91.4%).

Awdurdodaeth Tribiwnlys AAA ac Anabledd Cymru/Lloegr (SENDIST) fu'n delio â'r apeliadau a dderbyniwyd cyn Medi 2003 a, lle'r oedd hynny'n briodol, hwy hefyd fu'n cynnal y gwrandawriad. Cafodd Apeliadau o Gymru a dderbyniwyd gan SENDIST ar ôl 1 Medi eu hanfon ymlaen at Dribiwnlys AAA Cymru.

O dan awdurdodaeth SENDIST, cofrestrwyd 139 o apeliadau o Gymru yn ystod 2002/2003. Mae'r ffigurau cofrestru yn dangos gostyngiad o 15.2% yn nifer yr apeliadau o'r naill flwyddyn i'r llall. Ac ystyried bod rhaid i AALLau yng Nghymru hysbysu rhieni ynghylch eu hawl i apelio i TAAAC, mae'n annhebygol y byddai newydd-deb cymharol y Tribiwnlys yn egluro'r gostyngiad hwn yn nifer yr apeliadau.

Apeliadau AAA a gofrestrwyd mewn blwyddyn Dribiwnlys




Rhaniaid bechgyn:merched apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn, roedd 85 (72.6%) o'r apeliadau a gofrestrwyd yn ymwneud â bechgyn.

Dros yr un cyfnod, y ffigur i ferched oedd 32 cofrestriad (27.4%).

Mae'r ffigurau hyn yn bur gyson â chofrestriadau SENDIST ar gyfer y flwyddyn flaenorol: bechgyn 74.4%; merched 25.6%.



Cyflymder Cwblhau

Y llynedd, cwblhawyd 25 apêl gan TAAAC (yn wrandawiadau, yn adolygiadau ac yn ddileadau) o fewn yr amserlen a nodir dros y tudalen. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae cyfnod cwblhau'r Tribiwnlys yn dechrau o'r dyddiad cofrestru hyd nes y rhoddir penderfyniad ysgrifenedig i'r rhiant / rhieni a'r AALL.

Rwyf wedi penderfynu mynegi'r cyfnodau yn ôl nifer y diwrnodau gwaith¹ oherwydd, i bob golwg, mae hyn yn cynnig darlun mwy cywir o hyd y broses. Er mwyn cymharu, ar gyfer y flwyddyn hon yn unig, yr ydym hefyd wedi dangos (mewn cromfachau) gyflymder cyfartalog y cwblhau mewn misoedd.

Dylid nodi bod TAAAC wedi gwrandao ar ei apêl gyntaf ganol mis Tachwedd. Bydd apeliadau a dderbyniwyd yn hwyr ym mlwyddyn y Tribiwnlys (o Fehefin 2004) ymlaen yn cael eu clywed, lle y bo'n berthnasol, yn y flwyddyn 2004-2005.

¹ Yn unol â'r rheoliadau, nid yw'r canlynol yn cael eu hystyried yn ddiwrnodau gwaith: Sadyrnau a Suliau, unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr tan 1 Ionawr yn gynwysedig, gwyliau banc.

Nifer y Penderfyniadau a gyhoeddwyd:	25
Nifer cyfartalog Diwrnodau Gwaith:	82 (4.1 mis)

Effeithiwyd rhywfaint ar y cyfartaleddau gan 2 apêl a gymerodd amser anghyffredin o faith i'w cwblhau ac a gafodd eu gohirio.

Mae ffigurau SENDIST Lloegr a Chymru ar gyfer y llynedd yn dangos mai'r amser cyfartalog i gwblhau oedd 4.3 mis.

Cyhoeddi Penderfyniadau:

Rydym yn anelu at gyhoeddi penderfyniadau ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith. Ar gyfartaledd, cymerodd 9 diwrnod gwaith i gyhoeddi penderfyniad y flwyddyn ddiwethaf.

Canlyniadau ôl-gofrestru

Penderfynwyd	25	21.3%
Tynnwyd yn ôl/ildwyd ²	59	50.4%
Dilëwyd	1	0.9%
Yn disgwyl penderfyniad	32	27.4%

² Gall y rhieni dynnu apêl yn ôl yn ystod unrhyw ran o'r broses; gall AALLau benderfynu peidio â pharhau i wrthwynebu apêl a, phan hysbysir TAAAC o'r penderfyniad yn ysgrifenedig, dywedir bod yr apêl wedi'i hildio.


Apeliadau fesul awdurdod addysg lleol

Yn ystod y flwyddyn, dyma faint o apeliadau gan rieni yn erbyn penderfyniadau AALI a gofrestrwyd:

	Nifer o apeliadau 03/04	I bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol	Apeliadau 2002/03	I bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol
Blaenau Gwent	0	0.00	2	1.67
Pen-y-Bont ar Ogwr	2	0.86	7	3.05
Caerffili	3	0.96	7	2.22
Caerdydd	35	6.48	28	5.37
Sir Gaerfyrddin	5	1.78	8	2.84
Ceredigion	1	1.00	2	1.87
Conwy	8	4.44	1	0.57
Sir Ddinbych	0	0.00	1	0.59
Sir y Fflint	3	1.20	7	2.71
Gwynedd	3	1.57	3	1.62
Ynys Môn	0	0.00	1	0.93
Merthyr Tudful	0	0.00	2	1.86
Sir Fynwy	5	3.57	4	3.01
Castell-nedd Port Talbot	6	2.72	5	2.18
Casnewydd	15	6.00	24	9.48
Powys	7	3.33	7	3.37
Sir Benfro	0	0.00	1	0.51
Rhondda Cynon Taf	4	0.95	3	0.70
Abertawe	7	1.89	13	3.52
Torfaen	3	1.76	8	4.56
Bro Morgannwg	8	3.60	2	0.90
Wrecsam	2	1.05	3	1.54

Mathau o apêl

Dengys y wybodaeth isod y gwahanol fathau o apeliadau a gofrestrwyd gan TAAAC.




Math o apêl	03/04 Cyfanswm	% o'r Cyfanswm	02/03 Cyfanswm	% o'r Cyfanswm
Yn erbyn gwrthodiad i asesu	46	39.3	42	30.2
Yn erbyn gwrthodiad i wneud datganiad	14	12.0	15	10.8
Yn erbyn gwrthodiad i ailasesu	2	1.7	0	0.0
Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r datganiad	2	1.7	6	4.3
Yn erbyn cynnwys y datganiad-rhan 2 & 3	21	18.0	40	28.8
Yn erbyn cynnwys y datganiad-rhan 2 & 3 & 4	13	11.1	31	22.3
Yn erbyn cynnwys y datganiad-rhan 3	8	6.8		
Yn erbyn cynnwys y datganiad-rhan 3 & 4	5	4.3		
Yn erbyn cynnwys y datganiad-rhan 4	6	5.1	5	3.6
Cyfanswm yr apeliadau a gofrestrwyd	117		139	

Roedd 51.3% o'r apeliadau a gofrestrwyd naill ai'n ymwneud â gwrthodiad i asesu neu, ar ôl gwneud asesiad, y penderfyniad i beidio â gwneud datganiad AAA. Roedd nifer yr apeliadau a oedd yn ymwneud â'r camau hyn gryn dipyn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol (41%) a bydd yn ddiddorol gweld a fydd y duedd hon yn parhau.

Natur angen addysgol arbennig

Dengys y wybodaeth isod natur apeliadau AAA, (gan ddefnyddio'r mathau o AAA a ddefnyddiwyd yn natganiadau CYBALD)³. Rydym wedi cofnodi'r prif AAA y cyfeiriwyd ato wrth apelio. Wrth gwrs (yn enwedig gydag apeliadau sy'n gofyn am asesiad) nid yw natur AAA plentyn bob tro'n amlwg yn y dyddiau cynnar a, gan nad yw pob apêl yn mynd yn ei blaen i ymwneud â'r wybodaeth fanwl sydd ei hangen ar gyfer datganiadau achos, yn aml nid yw'r darlun hwn yn dod yn gliriach ychwaith.

Os yw rhieni wedi nodi bod gan y plentyn fwy nag un angen addysgol arbennig, ac nad oes unrhyw wybodaeth bellach ar gael, rydym wedi cofnodi'r rhain yng nghategori "AAAau lluosog (Ni ellir dynodi'r prif AAA)".



Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	22.2%
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	6.8%
Nam ar y Clyw ayb	3.4%
Anawsterau Dysgu Penodol gan gynnwys llythrennedd / dyspracsia	33.3%
Anawsterau Dysgu Cymedrol	0.9%
Eraill / Anhysbys	1.7%
Anabledd / Anhawster Corfforol gan gynnwys epilepsi	6.8%
Anawsterau Dysgu Difrifol	4.3%
Anawsterau Lleferydd a Iaith	5.1%
AAAau lluosog (Ni ellir dynodi'r prif AAA)	15.4%

3 Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

Canlyniad yr apeliadau: cyffredinol

Dengys y tabl isod faint o apeliadau a gadarnhawyd, naill ai'n llawn neu'n rhannol, a faint a wrthodwyd. Cafodd 80% o apeliadau eu cadarnhau'n llawn neu'n rhannol, a gwrthodwyd 16%.

Math o apêl	Penderfyniadau a wnaed 2003/2004			Penderfyniadau a wnaed 2002/2003		
	Cad	Gwrth	Dileu	Cad	Gwrth	Dileu
Gwrthod asesu	3	1	0	2	7	1
Gwrthod gwneud datganiad	0	2	0	2	1	0
Gwrthod ailasesu	0	0	0	0	0	0
Peidio â pharhau	0	0	0	2	1	0
Rhan 2 & 3	6	0	0	15	1	1
Rhan 2, 3 & 4	6	0	0	23	0	2
Rhan 4	1	1	0	3	1	0
Rhan 3	1	0	1	0	0	0
Rhan 3 & 4	3	0	0	0	0	0
Cyfanswm	20	4	1	47	11	4

Canlyniad yr apeliadau: ysgolion

Roedd 8 o'r penderfyniadau yn ymwneud â'r ysgol a enwyd yn natganiad y plentyn (apeliadau rhan 4). Dangosir y canlyniadau isod:

	Diwygio datganiad cadarnhau rhan 4	Diwygio datganiad cadarnhau rhan 3&4	Diwygio datganiad cadarnhau rhan 2, 3&4
Ysgol brif ffrwd a gynhelir	0	1	1
Ysgol Arbennig Annibynnol wedi'i chymeradwyo	0	0	1
Ysgol Arbennig a gynhelir	1	1	2
Addysg Gartref	0	0	1
Cyfanswm	1	2	5

Canlyniadau yn ôl natur AAA

Math o apêl	Penderfyniadau a wnaed 2003/2004					
	Cadarnhau		Gwrthod		Dileu	
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	8	32%	1	4%	0	
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	1	4%	0		0	
Nam ar y Clyw ayb	0		0		0	
Anawsterau Dysgu Penodol gan gynnwys llythrennedd / dyspracsia	4	16%	1	4%	0	
Anawsterau Dysgu Cymedrol	0		0		0	
Eraill/Anhysbys	0		0		0	
Anabledd / Anhawster Corfforol gan gynnwys epilepsi	4	16%	0		0	
Anawsterau Dysgu Difrifol	1	4%	0		0	
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	0		0		0	
AAAau lluosog (Ni ellir dynodi'r prif AAA)	2	8%	2	8%	1	4%
Cyfanswm	20	80%	4	16%	1	4%

Monitro Ethnig

Gwahoddir rhieni i gwblhau'r datganiad monitro ethnig a ddaw gyda hysbysiad yr apêl. Cododd y wybodaeth ganlynol o'r datganiadau a gwblhawyd:

	2003/ 2004	2002/ 2003
Bangladeshaid	1	0
Affricanaidd du	1	1
Du Arall	0	1
Pacistanaidd	2	0
Gwyn	93	95
Arall	2	2
Heb eu llenwi	29	40
	128	139

Apeliadau i'r Uchel Lys

Ni fu unrhyw apeliadau i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau TAAAC yn ystod y flwyddyn 2003/2004.

Hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd

Mae'n anodd dod i gasgliad ystyrllon am hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd ac ystyried mai dim ond 2 hawliad a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn. Ac ystyried bod cyn lleied o achosion wedi bod, amlinelliad bras yn hytrach na dadansoddiad manwl a geir yma.

Cofrestrwyd y ddau hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd ac aeth y ddau ymlaen i gael gwrandawriad; cafodd y ddau eu cadarnhau. Yn y 2 achos, gorchmynnwyd y corff cyfrifol i ymddiheuro wrth y disgybl dan sylw a phenderfynwyd bod angen darparu hyfforddiant pellach. Ysgol uwchradd a gynhelir ac ysgol arbennig a gynhelir oedd y cyrff cyfrifol.

Yn 2002/03, cofrestrodd SENDIST 2 hawliad a oedd yn ymwneud â chyrrff cyfrifol yng Nghymru.

Cwynion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi derbyn 2 gŵyn. Roedd y ddau o natur farnwrol: daeth un gan awdurdod addysg lleol a'r llall gan riant. Wedi ystyriaeth ofalus, ni chadarnhawyd y naill na'r llall. Deallaf fod yr un rhiant wedi gwneud cwyn pellach am isadrannau gweinyddol a barnwrol Tribiwnlys Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Arglwydd Ganghellor; ni chymerwyd camau pellach.

Yn naturiol, mae derbyn cwynion yn siomedig ond, wedi dweud hyn, mae pob cwyn o fudd am ei bod yn rhoi adborth i ni ac yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â hyfforddiant. Byddwn yn parhau i geisio gwella ein gwasanaeth i'n defnyddwyr.

Gwariant - 1 Ebrill 2003 tan 31 Mawrth 2004

Gwariant	2003-04 £ (000oedd)
Ffioedd a threuliau aelodau'r Tribiwnlys	32
Hyfforddi Aelodau	5
Llogi ystafelloedd ar gyfer y gwrandawiadau	7
Treuliau'r clerc wrth fynychu gwrandawiadau	2
Treuliau apeliadau eraill (hawliadau tystion, dehongli ayb)	3
Cyflogau	55
Treuliau swyddfa	9
Hysbysebion	22
Costau argraffu	25
Costau sefydlu ac addasu swyddfa	217
Rhent a threthi	17
Cyfleustodau, cynnal a chadw a glanhau	13
Cyfanswm	407

Mae cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth yn adlewyrchu'r costau sefydlu a gododd wrth ddodrefnu ac addasu adeiladau'r tribiwnlys.

Deallwn y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn anfon anfoneb at yr Adran Addysg a Sgiliau am 5% o gostau cynnal TAAAC yn ogystal â'r holl wariant a gododd yn sgil gwrando hawliadau ynghylch gwahaniaethu ar sail anabled.

Aelodaeth y Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol, ac maent i gyd naill ai wedi llywyddu neu eistedd ar dribiwnlysoedd rhwng Tachwedd 2003 a Medi 2004.

Llywydd

Rhiannon Ellis Walker

Cadeiryddion

Mark Allen

Jacqueline Blackmore

Meleri Tudur

Aelodau Lleyg

Sandra Boyle

Norman Donovan

Gwyn Griffiths

Kerena Marchant

Gareth Roberts

Siân Wyn Siencyn

Susan Taylor

Andrew Wilson